"A voice for skin care in Wales"
"Llais i ofal croen yng Nghymru"

# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen

## Dydd Mercher 11 Hydref 2017
## 18:00 – 19:30
## Ystafell Gynadledda A, Llawr Gwaelod Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
## Cadeirydd - David Melding AC

# Cofnodion y cyfarfod

## Yn bresennol:

1. David Melding AC, Cadeirydd
2. Rob Vine, Gofal Croen Cymru
3. Julie Peconi, Gofal Croen Cymru
4. Paul Thomas, Cadeirydd Gofal Croen Cymru
5. Jenny Hughes, Dermatolegydd Ymgynghorol a Chadeirydd Fforwm Dermatoleg Cymru Gyfan
6. Lisa Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
7. Girish Patel, Dermatolegydd ymgynghorol
8. Avad Mughal, Dermatolegydd ymgynghorol
9. Rebecca Andrews, Llywodraeth Cymru
10. Deb Vine, Gofal Croen Cymru
11. Rachel Abbot, Dermatolegydd ymgynghorol
12. Beverly Gamble, Cymdeithas Prydain er Cuddliwio’r Croen
13. Liz Allen, Cymdeithas Prydain er Cuddliwio'r Croen
14. Ann Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
15. Sharon Hulley, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

16. Katie Wellings, Iechyd Croen Panel Cleifion Bae Abertawe
17. Sarah Wheeler, Iechyd Croen Panel Cleifion Bae Abertawe
18. Lisa Mansell, Calm Beauty
19. Gail Grant, Abvie
20. Caroline Mills, Dermatolegydd ymgynghorol, Cadeirydd y Grŵp Gofal wedi'i Gynllunio
21. Maura Matthews, Tenovus
22. Christine Bundy, Athro Prifysgol Caerdydd

## Ymddiheuriadau:

Sam Bakri, Karen Barker, Rose Bell, Louisa Dallas, Andrew Davies, Vaughan Gething, Sarah Griffiths-Little, Keith Harding, Dave Hill, Glenda Hill, Kathryn Humphreys, Sarah Jones, Hamish Laing, Peter Lewis, Valerie Loftus, Richard Logan, Claire Mather, Rob Maule, Max Murison, Simon Oates, Richard Oliver, James Partridge, Diana Perry, Nick Ramsay, Sarah Sinstead, Henrietta Spalding, Mayda Thomas, Dominic Urmston, Ann Vosper, Sarah Wright.

## 1. Croeso, cyflwyniadau, ymddiheuriadau

Cyflwynodd David Melding AC ei hun a chyflwynodd ymddiheuriadau ar ran Nick Ramsay, a oedd yn methu â bod yn bresennol ar y funud olaf. Cytunodd David i gadeirio'r cyfarfod ar ran Nick.

Eglurodd Julie fod Vaughan Gething i fod yn bresennol, ond roedd wedi anfon ei ymddiheuriadau'r diwrnod cynt ac erbyn iddi gael gwybod, roedd yn rhy hwyr iddo anfon cynrychiolydd ar ei ran.

Cyflwynodd bawb eu hunain.

## 2. Y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau dermatoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Dr Julie Peconi ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhoddodd Julie y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau dermatoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ran Karen Barker, Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth (gofal wedi'i drefnu), na allai fod yn bresennol ar y funud olaf chwaith. Eglurodd Julie ei bod wedi llunio cyflwyniad yn seiliedig ar ddogfen friffio a anfonodd Karen ati'r diwrnod hwnnw.

Yn hanesyddol, methodd Hywel Dda â recriwtio a chadw Dermatolegwyr Ymgynghorol a bu prinder difrifol o feddygon ymgynghorol a Gradd Canol i ddarparu gwasanaethau dermatoleg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i hysbysebu am Ddermatolegydd Ymgynghorol yn ysbeidiol ond nid chafwyd unrhyw geisiadau hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae hyn yn arwydd o brinder cenedlaethol dermatolegwyr ledled y DU.

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i recriwtio tri Meddyg Arbenigol ym mis Awst a mis Hydref 2016. Bu'r broses recriwtio i'r tîm nyrsio hefyd yn llwyddiannus.

Maent wedi rhoi nifer o gamau eraill ar waith i ganiatáu ar gyfer darparu gwasanaethau dermatoleg yn barhaus. Mae rhai o'r camau hyn a roddwyd ar waith yn cynnwys:

- Cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i gynnwys cymorth ar gyfer graddio atgyfeiriadau, cymorth timau amlddisgyblaethol ar gyfer achosion cymhleth
- Atgyfeiriadau electronig
- Teledermatoleg
- Gweithio gyda meddygon teulu presennol sydd â diddordeb arbennig ac sy'n aelodau integredig o'r tîm
- Mae Nyrsys Clinigol Arbenigol MacMillan yn parhau i gefnogi llwybrau canser y croen
- Cydweithio wedi'i gynllunio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg drwy'r rhaglen ARCH

Cefnogir y Bwrdd Iechyd gan waith Bwrdd Dermatoleg Cymru drwy'r Rhaglen Genedlaethol Gofal wedi'i Gynllunio a gofynnwyd i'r Bwrdd roi cyflwyniad yn y cyfarfod cenedlaethol nesaf er mwyn rhoi gwybod am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'i gydweithwyr gofal sylfaenol.

Daeth Julie â'r cyflwyniad byr i ben gyda dyfyniad uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

*"Whilst the Service has the potential to attract criticism and scrutiny due to the fact that there is no substantive Consultant in post, the recent Recruitment of the Speciality Doctors, combined with the other arrangements put in place and the ongoing hard work of the team, has improved the immediate performance and sustainability of the Service."*

Cafwyd trafodaeth fer i ddilyn gyda chwestiynau'n canolbwyntio ar ba gefnogaeth yr oedd y nyrsys yn ei chael ar hyn o bryd gan y credir nad oes cefnogaeth mewn rhai ardaloedd. O ran recriwtio, gofynnwyd a oedd camsyniad bod angen y Gymraeg ar gyfer y swydd? Hefyd, a allai Hywel Dda gynnig premiwm neu hwb mewn cyflog i wneud y swydd yn fwy deniadol. Credwyd fod hyn yn bosibl ac y gellid cynnig arian ychwanegol a bod hyn wedi'i gynnig yn y gorffennol, ond ni wnaed hynny ar gyfer yr hysbysebion mwyaf diweddar.

Awgrymwyd hefyd y gallai Hywel Dda ystyried adeiladu'r tîm, yn hytrach na chwilio am un rôl ymgynghorol gan fod hyn yn llawer o gyfrifoldeb i un unigolyn. Yn Lloegr, maent wedi datblygu model 'hub and spoke' - a allai hyn weithio fel canolfan?

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio – Dr Caroline Mills, Cadeirydd Bwrdd Dermatoleg Cymru

Rhoddodd Caroline y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio (PCP) sy'n ceisio helpu i ddarparu gwasanaeth dermatoleg cynaliadwy i Gymru a gwella profiad cleifion trwy'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dermatoleg. Roedd y Cynllun wedi'i ddosbarthu o'r blaen.

Mae'r camau gweithredu y mae'r Cynllun yn ymdrin â hwy yn cynnwys PREMS (mesurau profiad yn gysylltiedig â chleifion); gwerth ac effeithlonrwydd; telefeddygaeth a chanser. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod amrywiad ac arferion da ledled Cymru.

Y materion allweddol a nodwyd gan y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yw'r angen i fynd i'r afael â galw, capasiti a gweithgarwch. Ar hyn o bryd nid yw cleifion allanol yn cael eu codio ac nid oes ffordd o olrhain atgyfeiriadau cleifion allanol. Mae angen deall pam nad yw data unigolion yn cael ei gysylltu â data cenedlaethol.

Ar hyn o bryd teimlir nad oes gan neb afael ar y data ac nad oes dull cyson o gasglu data yng Nghymru. Daeth Caroline â'i chyfraniad i ben gyda rhai o'r heriau sy'n wynebu'r PCP, gan gynnwys cynaliadwyedd gwasanaethau, y gweithlu a gwybodeg, gan nodi bod rhai camau yn haws nag eraill i'w cyflawni. Mae angen diffinio ein galw, ein capasiti a'n gweithgarwch ar frys, a dim ond wedyn y gallwn roi cynlluniau priodol ynghyd i wella gofal cleifion.

Roedd y drafodaeth wedyn yn canolbwyntio ar sut y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol helpu'r sefyllfa trwy ddod â'r weithred o wella dulliau casglu data mewn dermatoleg i sylw'r Aelodau Cynulliad. Pwysleisiodd David fod angen inni ofyn beth all Aelodau'r Cynulliad ei wneud?

Nodwyd nad oedd unrhyw gefnogaeth seicogymdeithasol i gleifion dermatoleg yn y Cynllun Gweithredu ac eto bod diffyg dealltwriaeth o'r angen am hyn gan bod casglu data yn ddiffygiol. Awgrymwyd y gallai Gofal Croen Cymru helpu'r PCP o ran gwerthuso'r dull o gasglu data.

**Camau i'w cymryd: Gofal Croen Cymru a'r Grŵp Gofal wedi'i Gynllunio i gyfarfod i drafod sut y gall Gofal Croen Cymru gefnogi'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio, yn arbennig gyda safonau casglu data.**

## 4. Gweithgareddau atal canser y croen ledled Cymru - Dr Rachel Abbott, Dermatolegydd Ymgynghorol ac Arweinydd Canser y Croen, BIP Caerdydd a'r Fro, Llysgennad Skcin ac Aelod o Gymdeithas Dermatolegwyr Prydain

Rhoddodd Dr Abbot ddiweddariad byr ar atal canser y croen yng Nghymru ers y Grŵp Trawsbleidiol diwethaf. Tynnodd sylw at y ffaith mai 50% o faich gwaith dermatolegydd yw canser y croen, ac mae hyn yn defnyddio llawer iawn o adnoddau. Unwaith eto, mae casglu data a chofnodi cywir yn broblem gan ein bod yn cofnodi llai na 50% o ganser celloedd cennog ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd fod 86% o achosion o ganser y croen melanoma yn y DU yn rhai y gellid bod wedi'u hatal ac y byddai hynny wedi arbed 128 o fywydau yn 2014 yng Nghymru.

Daeth adolygiad systematig diweddar i amcangyfrif baich melanoma sy'n deillio o ddefnyddio gwelyau haul yng Ngorllewin Ewrop i'r casgliad bod defnyddio gwelyau haul yn gysylltiedig â chynnydd sylweddol yn y risg o melanoma a bod y niwed canserig sy'n gysylltiedig â defnyddio gwelyau haul yn sylweddol ac y gellid ei osgoi gan reoliadau llym.

Nid yw gwelyau haul wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd ac mae hwn yn fater y gallwn i gyd ei ddwyn i sylw ein Haelodau Cynulliad. Nid yw'r neges ynglŷn â pheryglon gwelyau haul yn cyrraedd merched yn eu harddegau ar hyn o bryd. Mae angen addysg ar lefel oedran meithrin fel bod gweithgareddau atal canser y croen yn cael eu hintegreiddio yn y plant.

**Camau i'w cymryd: Pawb i ymchwilio i ddod â'r defnydd o welyau haul a pheryglon gwelyau haul i sylw Aelodau'r Cynulliad.**

Amlinellodd y sefydliadau niferus sy'n cynnal ymgyrchoedd i hyrwyddo amddiffyniad rhag yr haul (gan gynnwys Sioe Deithiol 'Be Sun Aware' Cymdeithas Dermatolegwyr Prydain a'i 'Wythnos Ymwybyddiaeth yr Haul' ym mis Mai ac ymgyrchoedd yr elusennau Skcin a SunSmart ac ymgyrch Peidiwch â bod yn gimwch Gofal Croen Cymru). Pwysleisiodd yr angen i gydlynu gweithgareddau atal canser y croen yn well ledled Cymru a sut y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud hyn bellach.

Yn benodol, Atal Canser y Croen yng Nghymru - Roedd y cynigion yn cynnwys:

- Deddfwriaeth bellach i leihau'r defnydd o welyau haul
- Gwneud y gorau o ddiogelwch yr haul o fewn cynlluniau Ysgolion Iach / Gweithleoedd Iach
- Iechyd Cyhoeddus Cymru i gydlynu gweithgareddau trydydd sector, ynghyd â byrddau iechyd a chynghorau lleol
- Ymchwil i ataliaeth sylfaenol canser y croen yng Nghymru

- Cofrestru holl ganserau’r croen yn llawn

## 5. Trafodaeth ar Ddermatoleg yng Nghymru, gan gynnwys atebion ar gyfer recriwtio a chadw dermatolegwyr a chasglu data - Pawb

Bu hwn yn fater sefydlog ar agenda'r Grŵp Trawsbleidiol - yr anallu i recriwtio a chadw ymgynghorwyr Dermatoleg yng Nghymru, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru lle nad oes unrhyw ymgynghorwyr mewn swydd ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae 150 o swyddi gwag ar lefel ymgynghorwyr ledled y DU gyda thua 38 o'r swyddi gwag hyn yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth gref ar ddulliau o gynyddu recriwtio a chadw pobl, gyda nifer o syniadau’n cael eu cyflwyno.

Un o'r prif bryderon yw nad oes llawer o hyfforddeion yn dod o'r rhaglen hyfforddi ac nid oes bwriad i gynyddu nifer y myfyrwyr ar y rhaglen. Un opsiwn a gyflwynwyd oedd y posibilrwydd o ddarparu cymrodyr clinigol yng Nghymru, gan gynnig llwybrau eraill i hyfforddi fel ymgynghorydd Dermatoleg. Trafodwyd creu swyddi Cymrodyr Clinigol ledled Cymru. Gallwn hyfforddi meddygon teulu y tu allan i'r rhaglen hyfforddi reolaidd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn Norwich. Byddai hyn yn helpu’r llwyth gwaith yn fawr.

Hefyd trafodwyd yr angen am fwy o gefnogaeth i hyfforddeion. Sut y gallwn eu cynorthwyo'n well?

Bydd Grŵp Dermatoleg Cymru Gyfan yn ymchwilio i’r rhain ac mae cyfle i wneud argymhellion yn y Cynllun Gweithredu Dermatoleg. Mae'n hanfodol ein bod yn cadw'r trafodaethau hyn i fynd.

## 6. Unrhyw fater arall

Nid oedd amser ond i gael trafodaeth fer ar unrhyw faterion eraill ond codwyd pedwar eitem:

**Llawfeddygaeth y Geg / Enol-Wynebol yng Nghaerdydd**

Siaradodd Dr Jenny Hughes am y clinig hwn a'r gwaith gwych yr oedd wedi'i wneud. Bu trafodaeth y gall y clinig fod mewn perygl o gau a hoffai ymgyrchu i’w gadw ar agor.

**Camau i'w cymryd: Gofal Croen Cymru i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i gadw'r clinig ar agor.**

**Cymdeithas Prydain er Cuddliwio'r Croen (BASC)**

"Mae wedi dod i sylw Cymdeithas Prydain er Cuddliwio'r Croen bod rhai cynhyrchion ar restr y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol (ACBS) yn cael eu gwahardd gan rai Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCG) yn Lloegr. Ymddengys fod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yn lleol, ac nad oes ganddynt unrhyw sail gyfreithiol. Er y gellir sylweddoli bod angen gwneud toriadau, a yw'r Pwyllgor hwn yn ystyried mai dyma'r dechrau, ac o fewn ychydig flynyddoedd, bydd POB ACBS yn cael ei wahardd yng Nghymru? "

Mae BASC wedi codi hyn gyda chyfarfod Grŵp Cefnogi Cleifion Cymdeithas Dermatolegwyr Prydain a chyfarfod Cyngor Dermatoleg Lloegr (Mai 2017) ac mae'r ddau awdurdod hynny bellach yn gofyn y cwestiwn hefyd. Maent hefyd wedi cael yr MHRA i dderbyn y pwnc hwn i'w drafod yn y cyfarfod blynyddol yn Llundain (10.10.17) ac mae Liz Allen yn mynd i'r cyfarfod hwnnw. Efallai y bydd Cymru yn cytuno ar agenda wahanol i'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, neu'n cyd-fynd â nhw er mwyn gwneud arbedion ariannol o fewn y GIG.

Mae gan BASC bryder am y brandiau cuddliwio'r croen sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd gan ACBS yn ogystal ag eitemau fel amddiffyniad rhag yr haul, wigiau (alopecia) yn ogystal â thatŵio meddygol (yn enwedig ar gyfer alopecia ac ar ôl canser y croen / impiad ac anafiadau llosgi). Efallai nad yw eitemau o'r fath yn ddrud, ac yn sicr nid ydynt yn gyffuriau "achub bywyd", ond maen nhw'n gwneud llawer i roi eu bywyd a'u hunan-barch yn ôl i bobl ynghyd â hyder i wynebu'r byd.

**Camau i'w cymryd: Mae Liz Allen o BASC wedi gofyn am i hon fod yn eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol.**

**Y Gymdeithas Psoriasis**

Mae'r Gymdeithas Psoriasis ar hyn o bryd yn cynnal y Bartneriaeth Gosod Blaenoriaethau Psoriasis (PSP) - prosiect lle maent yn dod â chleifion, gofalwyr a chlinigwyr ynghyd i nodi cwestiynau sydd heb eu hateb am psoriasis a thriniaethau. Maent yn gofyn i bobl gwblhau arolwg byr (https://www.surveymonkey.co.uk/r/Z3GJ77V) lle y gallant gyflwyno eu cwestiynau. Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu casglu a phenderfynir ar restr y 'deg uchaf' yn hwyrach. Defnyddir y rhestr deg uchaf hon i sicrhau bod gwaith ymchwil psoriasis yn y dyfodol yn cael ei wneud mewn meysydd sy'n bwysig iawn i bobl sy'n byw gyda'r cyflwr, eu teuluoedd a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n eu trin. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach am y PSP yma: <https://www.psoriasis-association.org.uk/research/psp>. Byddai'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi cymorth y Grŵp Trawsbleidiol yn fawr o ran lledaenu'r wybodaeth hon - gan wneud cleifion a chydweithwyr

(Dermatolegwyr, Meddygon Teulu, Nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill) yn ymwybodol o'r prosiect a'u hannog i gwblhau'r arolwg, yn ogystal â'i gwblhau eich hun.

Yn ogystal, bydd Wythnos Ymwybyddiaeth Psoriasis eleni yn rhedeg o ddydd Sul 29 Hydref (Diwrnod Psoriasis y Byd) tan ddydd Sul 5 Tachwedd. Mae'r manylion yn dal i gael eu cwblhau ond byddant ar gael yn fuan ac unwaith eto, byddai'r Gymdeithas yn croesawu unrhyw gymorth i hyrwyddo'r digwyddiad hwn i gleifion a chydweithwyr. Cysylltwch â'r tîm gweinyddol yn mail@psoriasis-association.org.uk.

**Cinio a Dawns Elusennol Gofal Croen Cymru**

Mae Gofal Croen Cymru yn cynnal eu digwyddiad codi arian blynyddol yn y Village Hotel yn Abertawe nos Wener 17 Tachwedd. Mae tocynnau ar gael nawr a byddai'r elusen yn croesawu'n fawr gymaint o aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ag y bo modd.

Diolchodd David i'r grŵp am eu hamser a'u cyfraniad at drafodaeth fywiog ar y materion sy'n ymwneud â gofal croen yng Nghymru. Daeth â'r cyfarfod i ben drwy annog y Grŵp Trawsbleidiol i feddwl am yr hyn y gallent gael Aelodau'r Cynulliad i'w wneud.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ymhen tua chwe mis.